

PhD yn Ysgol Busnes Caerdydd

Rydym yn cynnig amgylchedd ymchwil ac addysgu gwirioneddol ryngwladol mewn prifysgol sy'n rhan o Grŵp Russell.

Bydd ein rhaglen PhD yn eich paratoi naill ai am yrfa fel ysgolhaig academaidd blaenllaw neu i ragori fel ymarferydd busnes neu luniwr penderfyniadau polisi ar lefel uwch.

Fel myfyriwr PhD byddwch yn cael eich integreiddio'n llawn yn ein cymuned ymchwil ac academaidd. Byddwch yn cael yr offer deallusol a methodolegol i gynorthwyo eich ymchwil, a'r cyfle i gyfrannu at ddatblygu gwybodaeth a chreu effaith yn eich maes academaidd dewisol.


EIN DULL GWEITHREDU

Rydym ni'n Ysgol Busnes sy'n edrych i'r dyfodol gyda phwrpas – cyflawni gwelliannau cymdeithasol ochr yn ochr â datblygiadau economaidd.

Gwerth Cyhoeddus yw'r enw sydd gennym am hyn.

Mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein hymrwymiad i sicrhau effaith gadarnhaol ar ein cymunedau gartref ac o gwmpas y byd.

Mae ein gwaith ymchwil pwrpasol, sy'n arwain y byd ym maes y gwyddorau cymdeithasol, yn ganolog i gyflawni ein dyheadau Gwerth Cyhoeddus.



Trefnir ein hymchwil o amgylch prif adrannau academaidd yr Ysgol:

- Cyrifeg a Chyllid
- Economeg
- Logisteg a Rheoli Gweithrediadau
- Rheoli, Cyflogaeth a Sefydliadau
- Marchnata a Strategaeth

Mae'r rhain yn cynnig cartref disgyblaethol eang i unigolion, yn ogystal â chydlynu ymchwil, addysgu a gweinyddu. O fewn y meysydd hyn mae goruchwyliaeth ar gael ar draws ystod eang o bynciau ymchwil ac anogir ymgeiswyr i ymweld â gwefan yr Ysgol i gael gwybodaeth fanylach am grwpiau ymchwil a diddordebau ymchwil staff unigol.

EIN HYMRWYMIAD I CHI

Pan fyddwch yn dewis gwneud PhD gyda ni, byddwch yn ymuno â chymuned o ymchwilwyr ac academyddion sy'n gweithio ar flaen y gad yn eu disgyblaethau. Byddwn yn ymrwymo i'ch llwyddiant bob cam o'r ffordd.

Byddwch yn cael:

- Tîm goruchwyllo gydag o leiaf ddau oruchwyliwr fydd yn meithrin eich datblygiad
- Goruchwyliaeth academiaidd a bugeiliol barhaus gyda monitro cynnydd yn rheolaidd i'ch helpu i gwblhau eich gradd
- Amgylchedd colegol, cefnogol lle gallwch dynnu ar arbenigedd cyfadrann uchel ei pharch
- Hyfforddiant pwrcasol a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol
- Cefnogaeth a hyfforddiant penodol ar gyfer arholiad llafar y PhD gan gynnwys digwyddiadau gyda chyn-fyfrwyr PhD i gael cyngor gan gymheiriaid
- Cyfleoedd rheolaidd i gyflwyno gwaith mewn gweithdai myfyrwyr PhD



YR ACADEMI DDOETHUROL

Yr Academi Ddoethurol yw cartref y gymuned ymchwil ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ein cymuned ymchwil yn unigryw, yn fywiog ac yn gefnogol.

Byddwch yn dod yn rhan o gymuned gefnogol, gyda hyfforddiant cynhwysfawr i ategu eich sgiliau personol, eich ymchwil a'ch datblygiad gyrfa. Mae'r Academi Ddoethurol hefyd yn cynnig ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol rhyngddisgyblaethol, hyfforddiant ymchwil sy'n benodol i'ch disgyblaeth yn ogystal â chyllid i gynnal eich digwyddiadau eich hun.

CYLLID

Mae ein rhaglen PhD yn cynnig efrydiaethau ac ysgoloriaethau i ymgeiswyr o'r DU, yr UE a thramor ac fe'i cydnabyddir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC).

Mae cyllid ar gael trwy Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC, gydag ysgoloriaethau ar gael mewn Busnes a Rheolaeth, ac Economeg. Rydym ni hefyd yn cynnig cyllid drwy ysgoloriaeth Ysgol Busnes Caerdydd.

YR HYN Y MAE EIN MYFYRWYR YN EI DDWEUD



“Dewisais wneud fy PhD ym Mhrifysgol Caerdydd oherwydd safon yr addysg sy’n cael ei darparu yno. Gan ei bod yn brifysgol Grŵp Russell,

roeddwn i’n gwybod bod ymrwymiad cryf i waith ymchwil. Roedd y gefnogaeth a gefais gan fy ngoruchwylwyr ymchwil heb ei hail. Fe wnes i fwynhau’r broses o gwblhau fy PhD a chael gweithio gydag academyddion o’r radd flaenaf. Mae’r gefnogaeth sy’n cael ei chynnig gan y swyddfa PhD yn Ysgol Busnes Caerdydd yn anhygoel.

Yn ogystal â chyflawni’r cymhwyster, mae’r sgiliau hunan-gymhelliant, trefnu a chyfathrebu rwyf wedi eu datblygu wedi bod yn hanfodol wrth i mi feddwl am y camau nesaf ar lwybr fy ngyrfa. Erbyn hyn, rwy’n Uwch-ddarlithydd Rheoli Adnoddau Dynol ac Ymddygiad Sefydliadol Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb i mi gwblhau fy PhD a dysgu’r holl sgiliau cysylltiedig.”

Rachel Cook, PhD



“Fe wnes i fwynhau strategaeth Gwerth Cyhoeddus yr Ysgol yn fawr iawn. Rwy’n hoff iawn o gael safbwynt cyfannol o fewn fy ngwaith

a fy mywyd, felly fe wnaeth hyn weithio’n dda. Astudiais yn yr adran Logisteg a Rheoli Gweithrediadau, ac roedd pawb yn hynod gefnogol yno. Ni all llawer o bobl ddweud eu bod yn adnabod eu holl dîm ymchwil (50+), ond mae hyn yn bosibl yn yr adran hon.

Yn ystod fy ail flwyddyn, cefais y cyfle i drefnu cynhadledd fewnol. Rwyf hyd yn oed wedi bod yn addysgu sawl modiwl ac wedi cyflwyno darlith a gynlluniais fy hun.

Mae fy nhîm goruchwyllo yno bob amser i’m tywys ar y trywydd cywir. Fel maen nhw’n ei ddweud, mae’r posibiladau’n ddi-ddiwedd.”

Diego Bermudez, PhD

CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

Cyswllt ar gyfer ymholiadau:
CARBS-ResearchOffice@caerdydd.ac.uk

 BusinessCardiff

 @CardiffBusiness



**SIARTER
BUSNESAU
BACH**

